**Dyddiad cyhoeddi** Mai 2009

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

# Trin llygadgrynu drwy lawdriniaeth datgysylltu/ailgysylltu cyhyrau llorweddol y llygad

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer glinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio llawdriniaeth datgysylltu/ailgysylltu cyhyrau llorweddol y llygad yn y GIG i drin rhai pobl sydd â llygadgrynu. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio llygadgrynu na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am

hynny. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Er bod tystiolaeth i ddangos bod y driniaeth yn ddiogel, prin yw'r dystiolaeth o ran pa mor dda y mae'n gweithio. Os yw meddyg am ddefnyddio llawdriniaeth datgysylltu/ailgysylltu cyhyrau llorweddol y llygad i drin llygadgrynu, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio, ynghyd ag ansicrwydd sy'n gysylltiedig â risgiau posibl y driniaeth. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf neu ei ofalwr gytuno (neu anghytuno) ar y driniaeth. Dylai'r claf gael y daflen hon ac unrhyw wybodaeth arall fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd cael trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth. Dylai tîm o offthalmolegwyr sydd â phrofiad o reoli cyflyrau symudiad y llygad benderfynu pa gleifion ddylai gael y driniaeth hon.

Mae NICE wedi annog gwaith casglu data pellach, yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd bywyd, ac efallai y bydd yn adolygu'r driniaeth os bydd rhagor o dystiolaeth ar gael.

## Trin llygadgrynu drwy lawdriniaeth datgysylltu/ailgysylltu cyhyrau llorweddol y llygad

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer llygadgrynu. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'Tenotomi cyhyrau llorweddol y llygad ar gyfer llygadgrynu (gydag ailgysylltiad yn eu mewnosodiadau gwreiddiol)'. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma – siaradwch â'ch llawfeddyg i gael disgrifiad llawn.

Symudiad parhaus, cyflym, anrheoledig y llygad yw llygadgrynu (gan amlaf o ochr i ochr), sy'n amharu ar y golwg fel arfer. Gall llygadgrynu fod yn bresennol ar enedigaeth, gellir ei achosi gan ddiffygion yn y llygad neu'r llwybr golwg o'r llygad i'r ymennydd. Gallai fod gan blant â

chyflyrau'r llygad neu anableddau lluosog. Yn ddiweddarach mewn bywyd gall llygadgrynu fod yn symptom o gyflyrau fel strôc, sglerosis ymledol neu anafiadau i'r pen. Nid oes ffordd o'i wella. Gall sbectol neu lensys cyffwrdd wella golwg ond ni fyddant yn cywiro llygadgrynu.

Yn y driniaeth hon mae'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Torrir pilen y llygad (y gorchudd sy'n gorchuddio pelen y llygad) a thorrir cyhyrau llorweddol y llygad (sy'n symud y llygad o ochr i ochr) a'u hailgysylltu yn yr un man. Nod y driniaeth yw arafu symudiadau anrheoledig y llygad a gwella golwg, er nid yw'n gwbl hysbys sut y mae'r llawdriniaeth hon yn helpu.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich offthalmolegydd wedi cynnig datgysylltu/ailgysylltu cyhyrau llorweddol y llygad i chi ar gyfer llygadgrynu, dylai ddweud wrthych fod NICE wedi penderfynu nad oes llawer o dystiolaeth ynglyn â pha mor dda mae'r driniaeth yn gweithio, er ei bod yn ddiogel. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich offthalmolegydd egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch offthalmolegydd cyn i chi wneud penderfyniad.

Mae NICE wedi penderfynu hefyd fod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich offthalmolegydd yn gofyn i chi a all manylion eich triniaeth gael eu defnyddio i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich offthalmolegydd yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

## Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar bedair astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mesurodd astudiaeth o ddeg o oedolion faint o fanylder y gallent eu gweld ar ôl y driniaeth. Ar ôl blwyddyn roedd yn well mewn naw o gleifion ac yn waeth mewn un. Mesurodd astudiaeth o naw claf gyda llygadgrynu babanaidd yr un peth. Ar ôl blwyddyn, roedd gan wyth o gleifion fwy o siawns o weld manylder, ond mewn un nid oedd gwahaniaeth. Roedd yr amser yr oedd y llygad yn llonydd (canlyniad positif) wedi cynyddu ym mhob un o'r naw claf ac roedd gan bob un ohonynt lai o symudiad fertigol yn eu llygaid.

Mewn astudiaeth arall mesurwyd symudiad llygaid dau blentyn yn yr un modd. Roedd siawns un plentyn o weld manylder wedi cynyddu 8% ar ôl blwyddyn ac yn y llall roedd wedi cynyddu 36% ar ôl chwech mis. Mesurodd tair astudiaeth o gyfanswm o 24 o oedolion a phlant a gafodd y driniaeth eu gallu i weld llinellau o lythrennau o feintiau yn mynd yn llai ar siart. Roedd 15 o gleifion yn gallu gweld ychydig mwy o lythrennau chwechwythnos neu fwy ar ôl y driniaeth. Ni fu gwahaniaeth mewn tri chlaf. Mewn astudiaeth o bump o gleifion, roedd pob un ohonynt yn gallu ffocysu'n gyflymach ar wrthrych flwyddyn ar ôl y driniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai'r prif ffactorau llwyddiant oedd pa mor dda yw'r golwg yn y ddwy lygad gan ddefnyddio lensys cyffwrdd neu sbectol, lleihad mewn llygadgrynu, y gallu i weld dyfnder neu bellter, symudiad llygad, y gallu i weld mewn bywyd pob dydd, ansawdd bywyd, ymddangosiad llygaid claf a sut mae'n dal ei ben.

## Risgiau a phroblemau posibl

Ni nodwyd problemau gyda'r driniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gallai problemau gynnwys niwed i'r retina (yr ardal sy'n sensitif i olau yng nghefn y llygad) neu rwygo pelen y llygad, haint, a chyhyrau'r llygad heb gael eu halinio'n gywir gan arwain at gochni, chwyddo, golwg ddwbl, llygad croes neu golli golwg, a allai olygu llawdriniaeth bellach. Roedd un cynghorwr arbenigol wedi darllen am un claf yn datblygu syst ar bilen y llygad ar ôl y driniaeth.

## Rhagor o wybodaeth am llygadgrynu

Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

### NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'Thenotomi cyhyrau llorweddol y llygaid ar gyfer llygadgrynu (gydag ailgysylltiad yn y mannau gwreiddiol)'.*

*Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/HTG191*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7904-2
N1943 1P May 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.